GIG CYMRU NHS WALES | Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) Health Education and Improvement Wales (HEIW)

# Panel Achredu DSE

# Llawfeddygaeth y Geg Cymru Gyfan

## Canllawiau i Ymgeiswyr

Fersiwn 1.07: Mai 2025

**Cynnwys**

Cyflwyniad .......... 2
Cwmpas a Phwrpas y Ddogfen .......... 2
Datganiad Cydraddoldeb .......... 3
Y ddadl dros ddarpariaeth Lefel 2 mewn gofal sylfaenol .......... 4
Proses Cymru gyfan ar gyfer achrediad DSE .......... 5
Cronfa Ddata DSE Cymru Gyfan .......... 7
Panel Cymru Gyfan ar gyfer achrediad DSE .......... 8
Cymhwysedd i wneud cais am achrediad DSE .......... 8
Cynnal Achrediad .......... 9
Proses Apeliadau .......... 9
Llinell Amser Cais .......... 10
Cysylltiadau Allweddol .......... 10
Rolau a Chyfrifoldebau Rhanddeiliaid .......... 11
Fforwm Ymgynghorol Arbenigol Llawfeddygaeth y Geg .......... 11
Y Byrddau Iechyd Lleol .......... 11
Rhwydwaith Clinigol a Reolir (MCN) .......... 11
Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) .......... 11
Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (NWSSP) .......... 12
Canllawiau Cyffredinol ar Gyflwyno Tystiolaeth .......... 13
Tystiolaeth sydd ei hangen ar gyfer Ymarferwyr ‘Grŵp A’ .......... 15
Adran 1: Tystiolaeth gyffredinol: .......... 15
Adran 2: Profiad Clinigol Perthnasol .......... 15
Adran 3: Cyfeiriadau .......... 15
Adran 4: Sgiliau Proffesiynol, Arwain a Rheoli .......... 16
Adran 5: Datblygiad Proffesiynol Parhaus .......... 16
Adran 6: Tystiolaeth o Ddysgu Clinigol ar Lefel 2a .......... 17

Adran 7: Tystiolaeth Ategol Opsiynol ........ 17
Atodiad 1 - Lefelau 1 a 2a Cwricwlwm Llawfeddygaeth y Geg ........ 19
Atodiad 2 - Cymwyseddau ategol dangosol Lefel 2a Llawfeddygaeth y Geg ........ 23
Gwybodaeth ........ 23
Clinigol ........ 23
Cyfathrebu ........ 23
Rheolaeth Glinigol ........ 24

**Cyflwyniad**

Mae Deintydd â Sgiliau Estynedig (DSE) yn glinigydd sydd wedi ennill statws achredu i ddarparu gofal deintyddol cymhleth Lefel 2 yn un o'r 13 o arbenigeddau deintyddol. Gall DSE Llawfeddygaeth y Geg gyflawni triniaethau deintyddol a nodir fel cymhlethdod Lefel 2 mewn Llawfeddygaeth y Geg yn ddiogel ac yn gymwys. Unwaith y bydd wedi'i achredu, gall y DSE weithio mewn gwasanaeth a gomisiynir yn briodol gan ddarparu gwasanaethau Lefel 2. Diffinnir gofal Lefel 2 (a elwir weithiau yn ofal canolraddol) fel cymhlethdod gweithdrefnol a/neu glaf sy'n gofyn am glinigwr â sgiliau a phrofiad uwch a all fod ar gofrestr arbenigol neu beidio.

Yng Nghymru, mae cymhlethdodau Lefel 2 Llawfeddygaeth y Geg wedi'u gwahanu ymhellach i ganolraddol (Lefel 2a) ac arbenigol (Lefel 2b) i adlewyrchu'n ddigonol gwmpas y triniaethau a ddarperir gan DSE ac arbenigwyr Llawfeddygaeth y Geg mewn gofal sylfaenol. Mae'r gweithdrefnau a ddiffinnir fel cymhlethdodau Llawfeddygaeth y Geg Lefelau 2a a 2b wedi'u hamlinellu yn *'Llawlyfr Cymru Gyfan ar gyfer Cyfeirio am Lawdriniaethau'r Geg i Ymarferwyr Deintyddol Cyffredinol'*[1], y ceir crynodeb ohono yn Atodiad 1 ar dudalennau 17-20.

Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, dim ond triniaethau a ddosberthir fel Lefel 2a ac nid Lefel 2b y disgwylir i ymarferwyr Llawfeddygaeth y Geg yng Nghymru eu cyflawni. Ar gyfer gweddill y ddogfen hon, gellir tybio bod y term 'Lefel 2' yn cyfeirio at driniaeth Lefel 2a yn unig.

**Cwmpas a Phwrpas y Ddogfen**

Mae'r ddogfen hon i'w defnyddio gan fforymau cynghori strategol, byrddau iechyd, rhwydweithiau clinigol a reolir, darpar glinigwyr DSE Llawfeddygaeth y Geg, a chlinigwyr achrededig presennol. Mae'n darparu gwybodaeth ddefnyddiol am sut y gall ymarferydd deintyddol ennill achrediad DSE, a'r dystiolaeth o gymhwysedd y mae'n ofynnol iddynt ei gyflwyno. Mae hefyd yn cynnwys gwybodaeth am strwythur a chyfrifoldebau Panel Achredu DSE Llawfeddygaeth y Geg.

Rhaid i'r broses achredu fod yn deg ac yn dryloyw i bob ymgeisydd. Mae'r ddogfen hon yn amlinellu rheolaeth ansawdd y broses achredu i sicrhau ei bod yn gadarn ac yn glir. Mae'n nodi'r broses a ddylai fod ar waith a rolau a chyfrifoldebau gwahanol randdeiliaid i gynnal tegwch a chydraddoldeb o ran y broses achredu.

---

1Rhwydwaith Clinigol a Reolir ar gyfer Llawdriniaethau'r Geg De-ddwyrain Cymru. Llawlyfr Cymru Gyfan ar gyfer Cyfeirio am Lawdriniaethau'r Geg i Ymarferwyr Deintyddol Cyffredinol (Saes.) https://primarycareone.nhs.wales/files/information-for-dental-service/all-wales-oral-surgery-referral-handbook-for-general-dental-practitioners-pdf

Mae'r ddogfen hon yn berthnasol i Lawfeddygaeth y Geg yn unig, ac nid yw'r wybodaeth a gynhwysir yma o reidrwydd yn berthnasol i arbenigeddau deintyddol eraill. Mae’r ddogfen hon yn rhoi canllawiau penodol i Gymru, ac nid yw’n gyffredinol i weddill y Deyrnas Unedig nac yn unman arall. Nid yw achrediad DSE yng Nghymru yn dynodi nac yn gwarantu achrediad y tu allan i Gymru.

**Datganiad Cydraddoldeb**

Mae'r ddogfen hon yn sicrhau proses achredu gyda sicrwydd ansawdd ar gyfer DSE mewn Llawfeddygaeth y Geg, sy'n gadarn ac yn dryloyw. Mae hybu cydraddoldeb a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd wrth wraidd gwerthoedd craidd Addysg a Gwella Iechyd Cymru. Drwy gydol y broses o ddatblygu’r polisïau a’r prosesau a nodir yn y ddogfen hon, rydym wedi:

1. Rhoi sylw dyledus i'r angen i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth, i hybu cyfle cyfartal, ac i feithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol (fel y'i dyfynnwyd o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010) a'r rhai nad ydynt yn ei rhannu.

ac

2. Ystyried yr angen i leihau anghydraddoldebau rhwng cleifion o ran mynediad at wasanaethau gofal iechyd, a chanlyniadau ohonynt, a sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu darparu mewn ffordd integredig lle gallai hyn leihau anghydraddoldebau iechyd.

Rhaid i'r broses o recriwtio darparwyr Lefel 2 ymgorffori ymagwedd gynhwysfawr at gydraddoldeb ac amrywiaeth a rhaid trin pawb mewn modd teg, agored a gonest a rhaid cydnabod gwerth pob unigolyn. Ni ddylai unrhyw unigolyn gael ei drin yn llai ffafriol nag un arall ar sail tarddiad ethnig, cenedligrwydd, oedran, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol, hil neu ryw.

Os ydych yn teimlo bod angen cymorth ychwanegol neu addasiadau rhesymol arnoch er mwyn cwblhau eich cais oherwydd nodwedd warchodedig, cysylltwch â ni drwy e-bost ar HEIW.DES@Wales.nhs.uk neu drwy’r post a byddwn yn hapus i drafod hyn gyda chi.

## Dyletswydd Economaidd-Gymdeithasol

Mae gan AaGIC fel corff cyhoeddus ddyletswydd statudol i sicrhau bod ein polisïau a’n prosesau yn deg i’r rhai sy’n wynebu caledi economaidd-gymdeithasol.

Os teimlwch na allwch gyflwyno eich portffolio ar ffurf PDF oherwydd caledi ariannol neu fynediad i dechnoleg, cysylltwch â ni ar HEIW.DES@Wales.nhs.uk neu drwy'r post fel y gallwn wneud trefniadau eraill.

**Y ddadl dros ddarpariaeth Lefel 2 mewn gofal sylfaenol**

Mae tystiolaeth yn dangos bod rhoi mynediad i gleifion at wasanaethau Lefel 2 o fewn lleoliad gofal sylfaenol yn fwy cyfleus i gleifion ac yn lleihau'r amser aros am apwyntiad.2 Mae angen clir gan gleifion am y math hwn o wasanaeth hefyd: rhwng mis Ebrill 2020 a mis Mai 2021, roedd tri deg y cant (n=14155) o'r holl atgyfeiriadau a wnaed gan ddeintyddion yng Nghymru ar gyfer gweithdrefnau Llawfeddygaeth y Geg. Echdynnu dannedd a gwreiddiau (cywasgedig neu gladdedig) yw'r rheswm mwyaf cyffredin y mae deintydd yn cyfeirio cleifion at wasanaethau gofal eilaidd Llawfeddygaeth y Geg yng Nghymru.

Mae'n gyflymach i gleifion sydd angen gofal o gymhlethdod Lefel 2 gael eu gweld mewn lleoliadau gofal sylfaenol. Mae amseroedd aros i gael mynediad at ofal arbenigol yn hir, ac nid yw'r pandemig wedi helpu'r sefyllfa hon. Oherwydd daearyddiaeth Cymru, efallai y bydd gofyn i gleifion wneud teithiau hir i gael mynediad i gyfleusterau gofal eilaidd, yn aml gyda phrinder trafnidiaeth gyhoeddus. Ni fyddai'r teithiau hyn yn angenrheidiol pe bai gan gleifion fynediad at ofal Lefel 2 yn eu cymuned. Mae *Cymru Iachach* yn nodi'r agenda ar gyfer symud gofal i'r gymuned, sy'n golygu bod gan gleifion well mynediad at wasanaethau Lefel 2 yn eu hardal leol eu hunain, gan leihau'r angen am deithiau hir i leoliadau gofal eilaidd.3 Mae manteision amgylcheddol hefyd, megis mwy o gyfleoedd ar gyfer trafnidiaeth gynaliadwy i apwyntiadau oherwydd y pellteroedd byrrach dan sylw. Mae trin mwy o gleifion yn y gymuned yn osgoi oedi diangen i'r cleifion hynny sydd wir angen eu triniaeth ddeintyddol mewn amgylchedd gofal eilaidd.

Mae datblygu gwasanaethau gofal sylfaenol Lefel 2 yn darparu llwybr gyrfa amgen i ddeintyddion sydd am ennill sgiliau uwch heb ymgymryd â hyfforddiant arbenigol helaeth. Mae digwyddiadau adborth diweddar i hyfforddeion a gynhaliwyd gan AaGIC yn dangos bod awydd clir ymhlith deintyddion sydd newydd gymhwyso i ddatblygu eu sgiliau Llawfeddygaeth y Geg heb o reidrwydd gwblhau hyfforddiant arbenigol llawn, na gadael yr amgylchedd gofal sylfaenol. Gan fod achrediad Lefel 2 yn cael ei ddyfarnu ar sail gwybodaeth a phrofiad cronedig, mae hyn yn ei hanfod yn caniatáu hyblygrwydd yn llwybr yr hyfforddai ac mae'n cefnogi llwybrau gyrfa anunionlin. Mae hyn yn cyd-fynd â'r

---

2Rooney, E., 2015. The Evolution of Dentists with Enhanced Skills. *Faculty Dental Journal*, 6(2), tud.66-69.

3 LLYW.CYMRU. 2021. *Cymru iachach: cynllun hirdymor ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol | LLYW.CYMRU*. [ar-lein] Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/cymru-iachach-cynllun-hirdymor-ar-gyfer-iechyd-gofal-cymdeithasol [Cyrchwyd 1 Medi 2021].

cynigion a nodir yn adolygiad Addysg Uwch Lloegr o addysg a hyfforddiant deintyddol *Advancing Dental Care*.4

**Proses Cymru gyfan ar gyfer achrediad DSE**

Gall Achrediad DES Llawfeddygaeth  y Geg apelio at glinigwyr o ystod eang o gefndiroedd a lefelau profiad. Felly, mae darpar ymgeiswyr wedi'u rhannu'n dri grŵp yn ôl lefel tystiolaeth (Tabl 1).

Mae cam un o ddatblygu llwybr achredu DES ar y gweill ar hyn o bryd, gan ganolbwyntio ar achredu ymgeiswyr yng Ngrŵp A yn unig. Rhagwelir y bydd AaGIC a SAF Llawfeddygaeth y Geg yn gweithio gyda Byrddau Iechyd Lleol i ymestyn a datblygu'r llwybr hwn yn y dyfodol, i alluogi ceisiadau agoriadol ar gyfer Grŵp B, ac yn y pen draw ar gyfer ymgeiswyr Grŵp C.

Nid yw'n ofynnol i Arbenigwyr Llawfeddygaeth y Geg ennill statws DES at ddibenion comisiynu cymhlethdod Lefel 2.

| | |
|---|---|
| Grŵp A | Yn meddu ar y dystiolaeth sydd ei hangen yn barod, er enghraifft, gan hyfforddiant DSE a/neu wedi dangos cymhwysedd i ddarparu gwasanaethau Llawfeddygaeth y Geg Lefel 2a annibynnol.<br><br>Gall yr ymarferwyr hyn wneud cais yn uniongyrchol i Banel Achredu DSE am statws DSE.<br><br>Mae ceisiadau ar gyfer ymarferwyr 'Grŵp A' ar agor. |

4 https://www.hee.nhs.uk/our-work/advancing-dental-care

| | |
|---|---|
| Grŵp B | Meddu ar y wybodaeth a llawer o'r sgiliau sydd eu hangen ond heb ddigon o dystiolaeth, gan gynnwys cymeradwyo achosion clinigol, a byddai'n elwa o feysydd datblygu penodol megis cymorth ar gyfer datblygu portffolio ac ymarfer myfyriol, er enghraifft.<br><br>Efallai y bydd angen i'r ymarferwyr hyn gwblhau cyfnod o hyfforddiant DSE wedi'i dargedu cyn cyflwyno eu cais i Banel Achredu'r DSE.<br><br>Bydd cais i'r Panel yn nodi eu bod yn dymuno cyflawni statws DSE yn y dyfodol, a bydd yn galluogi AaGIC i'w nodi a'u cyfeirio at hyfforddiant priodol ar gyfer eu hanghenion addysgol.<br><br>**Ar hyn o bryd mae'r ceisiadau hyn ar gau.** |
| Grŵp C | Yn anelu at ennill achrediad DSE Lefel 2a ond ar ddechrau'r daith hon ac angen cefnogaeth fwy sylweddol gan gynnwys hyfforddiant clinigol.<br><br>Mae'n bosibl y bydd angen i'r ymarferwyr hyn ymgymryd â hyfforddiant sylweddol i gyflawni safon DSE mewn Llawfeddygaeth y Geg. Gall hyn gynnwys argymell hyfforddiant craidd deintyddol (DCT) neu swydd amser llawn tebyg, neu leoliad rheolaidd gyda Llawfeddygon y Geg cymwys.<br><br>**Ar hyn o bryd mae'r ceisiadau hyn ar gau.** |


**Cronfa Ddata DSE Cymru Gyfan**

Unwaith y bydd deintydd yn cael ei argymell ar gyfer Achrediad DSE gan Banel Achrediad DSE Llawfeddygaeth y Geg Cymru Gyfan, bydd ei Fwrdd Iechyd Lleol yn cael ei hysbysu, a bydd eu gwybodaeth yn cael ei throsglwyddo drwy AaGIC i Bartneriaeth Cydwasanaethau'r GIG (NWSSP) a fydd yn rheoli'r gronfa ddata DSE Cymru gyfan. Bydd NWSSP yn gosod deintydd ar y gronfa ddata dim ond yn dilyn argymhelliad gan Banel Achrediad DSE Llawfeddygaeth y Geg Cymru Gyfan.

Bydd y wybodaeth ar y gronfa ddata yn cynnwys enw'r clinigwr, Rhif Cyngor Deintyddol Cyffredinol, rhif Perfformiwr Cymreig a'r arbenigedd y maent wedi'u hachredu i ddarparu gwasanaethau Lefel 2 oddi mewn iddynt (Llawfeddygaeth y Geg yn yr achos hwn). Wrth i'r llwybr hwn ddatblygu, rhagwelir y bydd clinigwyr yn cael eu hachredu mewn arbenigeddau eraill ac yn defnyddio'r un gronfa ddata.

Mae bod ar gronfa ddata Cymru Gyfan yn cymhwyso'r clinigwr i weithio fel DSE Llawfeddygaeth y Geg mewn unrhyw fwrdd iechyd yng Nghymru (yn amodol ar gytundeb gan bob BILl). Ar hyn o bryd ni ellir trosglwyddo statws DSE i ardaloedd eraill yn y DU megis Lloegr. Fel y mae ar hyn o bryd, rhaid i glinigwyr wneud cais yn lleol am achrediad yn y rhanbarth hwnnw os ydynt yn dymuno ymarfer fel perfformiwr DSE y tu allan i Gymru.

**All-Wales Tier 2 Pathway for Oral Surgery**



**Panel Cymru Gyfan ar gyfer achrediad DSE**

Diben y panel hwn yw asesu a chymeradwyo ceisiadau ar gyfer clinigwr i ennill achrediad DES Llawfeddygaeth y Geg ac ymuno â chronfa ddata Deintyddion â Sgiliau Uwch Cymru Gyfan (DES) a gedwir gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (PCGC)

Bydd Panel Cymru Gyfan ar gyfer Achrediad DES Llawfeddygaeth y Geg yn cyfarfod tua dwywaith y flwyddyn i adolygu ceisiadau am achrediad.

Bydd uchafswm nifer y ceisiadau a ystyrir ym mhob cyfarfod panel yn cael ei gapio ar 15. Mae AaGIC yn cadw'r hawl i sgrinio ceisiadau i weld a ydynt yn cydymffurfio â gofynion sylfaenol, ac i wrthod ar yr adeg hon os oes angen. Os bydd mwy na 15 o geisiadau'n symud ymlaen trwy sgrinio mewn un cylch, bydd y rheini a symudir ymlaen ar sail y cyntaf i'r felin ac eithrio unrhyw ailgyflwyno a allai gael blaenoriaeth yn ôl disgresiwn Cadeirydd y Panel.

Os daw nifer fawr o geisiadau ,mae AaGIC yn cadw'r hawl i gynnull cyfarfod panel arbennig, neu i gynnal unrhyw geisiadau sy'n weddill tan y cylch ymgeisio nesaf, lle byddant wedyn yn cael eu hystyried fel blaenoriaeth, yn amodol ar ddisgresiwn Cadeirydd y Panel.

Bydd unrhyw geisiadau a dderbynnir ar ôl y dyddiad cau yn cael eu cadw tan y cylch nesaf.

**Bydd y panel yn cynnwys:**

- Dau glinigwr Llawfeddygaeth y Geg (un arbenigwr ac un ymgynghorydd) yn gweithio mewn gwahanol Fyrddau Iechyd Lleol (BILl) yng Nghymru
- Y Deon Ôlraddedigion Deintyddol neu ddirprwy enwebedig o AaGIC
- Cynrychiolydd o Fforwm Cynghori Strategol Llawfeddygaeth y Geg yng Nghymru
- Cynrychiolydd o Rwydwaith Clinigol LlyG lleol a Reolir
- Dau gynrychiolydd arall o wahanol Fyrddau Iechyd Lleol yng Nghymru (gofal sylfaenol a gofal eilaidd)
- Cynrychiolydd allanol
- Cynrychiolydd lleyg

Cytunir ar amser a dyddiad y panel nesaf ar ddiwedd pob cyfarfod chwe-misol, ond gellir disgwyl iddo gael ei gynnal bob mis Hydref a mis Ebrill. Cytunir ar agenda bedair

wythnos cyn dyddiad y cyfarfod, a bydd portffolios ymgeiswyr yn cael eu darparu i aelodau’r panel eu harchwilio o leiaf bythefnos cyn cyfarfod y panel.

Bydd aelodau’r panel yn adolygu ac yn sgorio ceisiadau’n annibynnol, ac yna’n cyfarfod i drafod sgoriau a dod i gonsensws ynghylch a yw’r ymgeisydd wedi darparu tystiolaeth ddigonol o gymhwysedd ar Lefel 2a.

Bydd AaGIC yn goruchwylio trefnu'r cyfarfod, yn ysgrifennu'r agenda a'r cofnodion, ac yn lledaenu gwybodaeth yn briodol. Bydd llinellau amser ymgeisio ar gael ymlaen llaw drwy dudalen we ‘Deintyddion â Sgiliau Uwch’ AaGIC.

**Cymhwysedd i wneud cais am achrediad DSE**

Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, nid yw'r rhai sydd eisoes wedi cofrestru'n arbenigwyr gyda’r Cyngor Deintyddol Cyffredinol (GDC) mewn Llawfeddygaeth y Geg yn gymwys i wneud cais am Achrediad DSE ar gyfer yr arbenigedd hwn. Maent eisoes wedi dangos eu bod yn gymwys i ddarparu gwasanaethau Lefel 2 mewn Llawfeddygaeth y Geg, ac felly ni fyddent yn elwa o gais DSE.

Os yw ymgeisydd wedi bod yn aflwyddiannus yn ei ymgais i ennill achrediad, mae’n gymwys i wneud cais eto ar gyfer y cylch ymgeisio canlynol ar ôl cwblhau’r camau gweithredu a nodir yn eu hadborth gan y panel achredu. Os yw ymgeisydd yn ansicr a yw'n meddu ar gymwysterau a/neu brofiad addas i wneud cais am achrediad DSE, fe'i hanogir yn fawr i gyflwyno cais fel y gellir adolygu ei dystiolaeth, a rhoi canllawiau penodol.

*I fod yn gymwys i wneud cais am achrediad DES Llawfeddygaeth y Geg, rhaid bod gan Ymarferwyr Deintyddol o leiaf 7 mlynedd o brofiad yn dilyn eu cymhwyster.*

**Cynnal Achrediad**

Efallai y gofynnir i ymgeiswyr llwyddiannus ailddilysu bob 5 mlynedd. Mae hyn yn debygol o gynnwys cwblhau datganiad cymhwysedd parhaus i gwblhau gwaith Lefel 2, disgrifiad o weithgareddau clinigol diweddar, a chofnod DPP perthnasol. Mae hyn yn cael ei adolygu ar hyn o bryd a bydd yn cael ei gadarnhau cyn y dyddiad adnewyddu 5 mlynedd.

## Llinell Amser Ymgeisio

Bydd Panel Cymru Gyfan Achrediad DES Llawfeddygaeth y Geg yn cyfarfod ddwywaith y flwyddyn, unwaith yn y gwanwyn ac unwaith yn yr hydref. Bydd y dyddiad cau ar gyfer ystyried ceisiadau ar gyfer y ddau gyfarfod panel nesaf yn cael ei gyhoeddi ar dudalen we ‘Deintyddion â Sgiliau Uwch AaGIC:

English: https://heiw.nhs.wales/education-and-training/dental/dentists-with-enhanced-skills/oral-surgery-des-accreditation/.

Cymraeg: https://aagic.gig.cymru/addysg-a-hyfforddiant/deintyddol/deintyddion-a-sgiliau-estynedig-des/achrediad-deintydd-a-sgiliau-estynedig-llawfeddygaeth-y-geg/

Bydd canlyniadau'n cael eu rhannu drwy e-bost o fewn 10 diwrnod gwaith i benderfyniad y panel. Bydd Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru a'r Byrddau Iechyd Lleol yn cael eu hysbysu o enwau'r ymgeiswyr llwyddiannus.

## Cysylltiadau Allweddol

Yn y lle cyntaf, cysylltwch â HEIW.DES@wales.nhs.uk. Mae'r mewnflwch hwn yn cael ei fonitro a byddwn yn ymateb i bob ymholiad mor gyflym ag y gallwn.

**Proses Apeliadau**

1. Mae gan ymgeiswyr yr hawl i apelio yn erbyn penderfyniad y panel os ydynt yn teimlo nad yw eu cais wedi cael ei ystyried yn deg. Gofynnir i ymgeiswyr sy'n cyflwyno apêl esbonio pam eu bod yn teimlo bod yr apêl yn angenrheidiol, a'u rhesymau dros apelio.

2. Ni fydd apeliadau y gofynnir amdanynt oherwydd bod yr ymgeisydd yn dymuno cyflwyno tystiolaeth ychwanegol na ddarparwyd yn wreiddiol yn cael eu derbyn. Bydd disgwyl i ymgeiswyr wneud cais i'r panel nesaf sydd ar gael gydag unrhyw dystiolaeth ychwanegol.

3. Dylid cyfeirio apeliadau at Banel Achredu DES(OS), drwy AaGIC. Dylid gwneud pob apêl o fewn 30 diwrnod i gyfleu penderfyniad y panel.

Y cyfeiriad post yw:

Cyfrinachol: Panel Achredu FAO DES(OS).

Tîm Deintyddol AaGIC,

Ty Dysgu, Cefn Coed,

CF15 7QQ

Gellir gwneud apeliadau hefyd drwy anfon e-bost at HEIW.DES@Wales.nhs.uk gyda'r testun "Panel Achredu FAO DES(OS) Cyfrinachol".

4. Anfonir cydnabyddiaeth ysgrifenedig o dderbyn yr apêl at yr unigolyn sy'n cyflwyno'r apêl o fewn 10 diwrnod gwaith. Bydd y gydnabyddiaeth yn egluro y bydd yr apêl yn cael ei hymchwilio a'i hateb yn unol â Phroses Apeliadau Deintydd â Sgiliau Uwch AaGIC.

5.Bydd y panel apeliadau yn cyfarfod o fewn 8 wythnos i hysbysiad o'r apêl i ail-archwilio'r dystiolaeth a gyflwynwyd ar adeg y cais. Bydd yr ymgeisydd yn cael gwybod am ei benderfyniad o fewn 10 diwrnod gwaith.

6.Os rhagwelir na ellir cwrdd â'r amser hon oherwydd amgylchiadau eithriadol, bydd eglurhad yn cael ei roi yn brydlon pam fod angen mwy o amser ynghyd â phryd y disgwylir dderbyn y penderfyniad.

Bydd y Rheolwr Busnes yn cynnull y panel apeliadau.

Bydd y Panel Apeliadau yn cynnwys:

- Cadeirydd Panel Achredu DES(OS).
- Un aelod o dîm DES(OS) oedd ddim yn bresennol ym mhrif gyfarfod y panel.
- Un cynrychiolydd SAF Llawfeddygaeth y Geg oedd ddim yn bresennol ym mhrif gyfarfod y panel.
- Un cynrychiolydd lleyg.

8. Bydd y panel yn adolygu'r cais gwreiddiol am achrediad DES OS, ynghyd â'r penderfyniad a wnaed gan Banel DES OS a'r apêl ei hun.

9. Ni fydd unrhyw dystiolaeth newydd yn cael ei hystyried fel rhan o'r broses apelio. Os yw'r ymgeisydd yn dymuno darparu tystiolaeth ychwanegol i ategu ei bortffolio, yna bydd angen iddo ailgyflwyno'r portffolio gyda'r dystiolaeth newydd i'r cylch ceisiadau canlynol. Am y rheswm hwn mae'n hanfodol bod ymgeiswyr yn cyflwyno'r holl dystiolaeth sydd ar gael ymlaen llaw.

10. Bydd y Panel Apeliadau yn cyfathrebu drwy e-bost. Bydd y Rheolwr Busnes yn hysbysu aelodau'r panel bod yn rhaid iddynt gyflwyno eu barn o fewn 10 diwrnod gwaith o dderbyn y wybodaeth.

11. Bydd crynodeb byr o'r apêl a dderbyniwyd yn cael ei gofnodi yn y Gofrestr Apeliadau, a fydd hefyd yn cynnwys canlyniad y panel apêl. Bydd hyn yn cael ei adrodd i'r Pwyllgor Gweithredol Rheoli Deintyddol misol.

12. Bydd canlyniad yr adolygiad gan y Panel Apêl yn cael ei gyfleu'n ysgrifenedig i'r apelydd gan y Rheolwr Busnes, ar ran Cadeirydd y Panel Apêl yn unol â'r amserlen a nodwyd.

13. Unwaith y bydd y panel apêl wedi ail-archwilio'r cais a darparu canlyniad, ni fydd hawl bellach i apelio yn erbyn y penderfyniad gan fod penderfyniad y Panel Apeliadau yn derfynol.

14. Mae croeso i ymgeiswyr sy'n aflwyddiannus mewn apêl ailgyflwyno cais yn y cylch ymgeisio canlynol, ar yr amod eu bod yn ystyried yr adborth a roddwyd gan y Panel. Bydd eu cais yn cael ei ystyried yn deg a heb ragfarn.

**Rolau a Chyfrifoldebau Rhanddeiliaid**

**Fforwm Ymgynghorol Arbenigol Llawfeddygaeth y Geg**

- Sefydlu, datblygu a chynghori rhwydweithiau clinigol a reolir mewn lleoliadau priodol.
- Datblygu a gosod y cwricwlwm clinigol, gan gynnwys isafswm nifer dangosol o weithdrefnau clinigol a ddisgwylir gan ymgeisydd am achrediad DSE Llawfeddygaeth y Geg (Gweler Taflen Farcio'r Panel).

**Y Byrddau Iechyd Lleol**

- Asesu addasrwydd safleoedd darparwyr.
- Dyfarnu contractau darparwyr.
- Rheoli perfformiad contractau a ddyfarnwyd.
- Nodi a chomisiynu cyfleoedd hyfforddi i GDPs uwchsgilio yn ôl angen lleol.

**Rhwydwaith Clinigol a Reolir (MCN)**

- Ymgysylltu ag AaGIC i gefnogi anghenion hyfforddi penodol gweithlu lleol.
- Helpu i nodi darparwyr hyfforddiant addas yn ogystal â darparu atodiadau clinigol â therfyn amser.
- Helpu i nodi arbenigwyr a all weithredu fel mentoriaid yn ogystal â chefnogi hyfforddiant clinigol ym mhob math o leoliadau, i helpu i ddatblygu'r gronfa o weithlu Lefel 2 yn lleol.
- Cynghori Panel Cymru Gyfan ar gyfer Achrediad DSE Llawfeddygaeth y Geg.

**Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC)**

• Rheoli a chydlynu'r broses ymgeisio gan gynnwys dosbarthu canlyniadau i ymgeiswyr.

- Trefnu, cynllunio a rheoli Panel Cymru Gyfan ar gyfer cyfarfodydd achredu DSE.
- Cefnogi hyfforddiant mewn meysydd penodol e.e., cyrsiau DPP priodol yn ymwneud â chwricwlwm proffesiynol generig. Gellir darparu rhai cyrsiau hyfforddiant arbenigol penodol yn ôl barn AaGIC ac yn amodol ar argaeledd.
- Cyfeirio ymgeiswyr at unrhyw gyfleoedd hyfforddi sydd ar gael.
- Cynnal tudalen we ac is-dudalennau DES Cymru Gyfan ar gyfer pob arbenigedd gyda phroses achredu DES gweithredol a gefnogir gan AaGIC.

**Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (NWSSP)**

- Cynnal a rheoli cronfa ddata DSE Cymru Gyfan gan ddefnyddio cyngor ac arweiniad gan Banel Cymru Gyfan ar gyfer achrediad DSE Llawfeddygaeth y Geg.
- Ychwanegu darparwyr Lefel 2 newydd i'r gronfa ddata pan ofynnir iddynt gan AaGIC, ar gyngor Panel Cymru Gyfan ar gyfer achrediad DSE Llawfeddygaeth y Geg.

**Canllawiau Cyffredinol ar Gyflwyno Tystiolaeth**

Dylai ymgeiswyr gyflwyno portffolio digidol o dystiolaeth i ddangos eu gallu i gyflawni gweithdrefnau Llawfeddygaeth y Geg Lefel 2a.

Lle bo modd, dylai'r cyflwyniad fod ar ffurf un ddogfen PDF, gyda thudalen flaen yn nodi'r canlynol:

- Enw llawn yr ymgeisydd
- Dyddiad geni
- Rhif CDC
- Bwrdd Iechyd Lleol
- Grŵp DSE y mae'r ymgeisydd yn teimlo ei fod yn gweddu fwyaf ag ef (Grŵp A, B neu C)
- Dyddiad cyflwyno

Ar hyn o bryd mae ceisiadau ond ar agor i ymarferwyr sy'n teimlo eu bod yn cyd-fynd â Grŵp A: ymarferwyr sydd eisoes yn gymwys i safon Lefel 2a. A fyddech cystal â monitro tudalen we 'Deintyddion â Sgiliau Uwch' AaGIC i gael gwybodaeth am gylchoedd y dyfodol.

Rhaid rhifo pob tudalen yn y ddogfen. Rhaid i'r ddogfen gynnwys tudalen gynnwys a datganiad bod y dystiolaeth sydd wedi'i chynnwys yn gynrychioliad gwir a gonest o lefel sgil yr ymarferwyr. Ni ddylid cynnwys data adnabyddadwy claf yn unrhyw le yn y cais, neu bydd yn rhaid ei wrthod.

**Tystiolaeth Ategol**

Mae'r dystiolaeth a argymhellir i'w chynnwys yn cael ei hesbonio yn yr adran nesaf, ac mae wedi'i mapio i'r cymwyseddau sy'n ofynnol gan yr ymarferydd Llawfeddygaeth y Geg Lefel 2a fel y nodir yn Atodiadau 1 a 2. Mae'r gweithdrefnau clinigol y disgwylir i ymgeisydd eu dangos a'r niferoedd dangosol lleiaf wedi'u nodi yn Nhaflen Marcio'r Panel V1.03, sydd ar gael o dudalen we Llawfeddygaeth y Geg DSE AaGIC.

Sylwch fod y rhestr dystiolaeth a argymhellir wedi'i diweddaru ym mis Ionawr 2024, yn dilyn adolygiad o'r cylch peilot ac ar ôl ystyried yn ofalus yr adborth a dderbyniwyd gan Ymgeiswyr a'r Panel.

Mae'r gweithdrefnau clinigol y disgwylir i ymgeisydd ddangos tystiolaeth ohonynt, a'r niferoedd dangosol lleiaf, wedi'u nodi yn Nhaflen Farcio'r Panel. Mae hwn ar gael ar dudalen gwe Llawfeddygaeth y Geg AaGIC DES.

Dylai pob llyfr log clinigol gael ei ddilysu gan Feddyg Ymgynghorol neu Lawfeddyg y Geg Arbenigol lle bo modd. Lle nad yw hyn yn ymarferol e.e. ar gyfer clinigwyr sy'n ymarfer yn annibynnol mewn lleoliad practis cyffredinol, bydd datganiad gan y clinigwr yn cadarnhau ei fod yn gofnod gwir a chywir yn cael ei dderbyn, a bydd y log yn cael ei ystyried ochr yn ochr â'r dystiolaeth arall a ddarparwyd.

Dylai pob swydd neu swydd hyfforddi a restrir fel tystiolaeth o brofiad clinigol gynnwys esboniad byr o'r rôl a manylion cyswllt y clinigwr sy'n goruchwylio. Mae AaGIC yn cadw'r hawl i gysylltu â'r goruchwyliwr i wirio os bydd unrhyw amheuaeth ynghylch profiad neu addasrwydd yr ymgeisydd.

Wrth lunio eu portffolio, dylai ymgeiswyr edrych ar fanyleb person Llawfeddygaeth y Geg ar gyfer Achrediad DES a Thaflen Farcio'r Panel, y bydd y fersiynau diweddaraf ohonynt ar gael ar wefan AaGIC. Sylwch y gallai'r rhain gael eu diweddaru o bryd i'w gilydd felly fe'ch cynghorir i wirio yma: Achrediad DES Llawfeddygaeth y geg - AaGIC (nhs.wales)

## Cyflwyno'r Portffolio

Byddwch yn derbyn e-bost hysbysu gan WeTransfer unwaith y byddwch wedi anfon eich cais i fewnflwch y CCA a phan fyddwn wedi lawrlwytho eich cyflwyniad. Bydd dyddiadau cau ar gyfer cyflwyno ar gael ar dudalen we 'Dentists with Enhanced Skills' AaGIC o dan yr adran Llawfeddygaeth y Geg.

Dylid cyflwyno'r portffolio drwy uwchlwytho ffeiliau'n ddiogel a'i drosglwyddo gan ddefnyddio WeTransfer i HEIW.DES@Wales.NHS.UK

Byddwch yn derbyn e-bost hysbysu gan WeTransfer unwaith y byddwch wedi anfon eich cais i fewnflwch y DES a phan fyddwn wedi lawrlwytho eich cyflwyniad.

Bydd dyddiadau cau ar gyfer cyflwyno ar gael ar dudalen we 'Deintyddion â Sgiliau Uwch' AaGIC o dan yr adran Llawfeddygaeth y Geg.

**Tystiolaeth sydd ei hangen ar gyfer Ymarferwyr 'Grŵp A'**

**Adran 1: Tystiolaeth gyffredinol:**

- Baglor mewn Llawfeddygaeth Ddeintyddol (BDS) neu dystysgrif gyfatebol
- Tystysgrif gofrestru'r CDC (mewn sefyllfa dda gyda'r CDC)
- Curriculum Vitae cyfoes a ddylai gynnwys, os yw'n berthnasol:
- Unrhyw gymwysterau ffurfiol/arholiadau perthnasol a basiwyd (MJDF/MFDS, MSc ac ati)
- Swyddi clinigol gyda dyddiadau, a hyd. Os yw swyddi'n berthnasol i Lawfeddygaeth y Geg dylid rhoi manylion cyswllt y llawfeddyg sy'n goruchwylio neu'r Goruchwyliwr Addysgol.
- Cymryd rhan mewn pwyllgorau a chymdeithasau arbenigol perthnasol
- Tystiolaeth o indemniad priodol ar gyfer gwasanaethau Haen 2A
- Datganiad personol byr (awgrymir 300-500 o eiriau) yn amlinellu'n fras y cynlluniau gyrfa a'r cymhelliant i wneud cais am achrediad DSE.

## Adran 2: Tystiolaeth o Gymhwysedd Clinigol

Yn yr adran hon, darparwch dystiolaeth o brofiad clinigol Lefel 2a o Lawfeddygaeth y Geg gan gynnwys llwyth achosion, cymhlethdod a chymysgedd achosion.

Disgwylir y bydd y rhan fwyaf o ymgeiswyr yn dangos tystiolaeth o hyn trwy lyfr log clinigol, fodd bynnag, os nad yw hyn yn ymarferol, bydd mathau eraill o dystiolaeth sy'n dangos yr uchod yn cael eu hystyried. Yn yr achos hwn, dylai ymgeiswyr ddarparu manylion cymhlethdod y driniaeth a'r cymysgedd achosion, gyda chyfiawnhad dros absenoldeb llyfr log clinigol. RHAID I BEIDIO â chynnwys manylion adnabyddadwy claf yn y portffolio.

Dylai'r llyfr log gynnwys cofnod o weithdrefnau Llawfeddygaeth y Geg Lefel 2a dros o leiaf 3 blynedd, gan nodi'n glir faint a oruchwyliwyd / heb oruchwyliaeth. Mae templed llyfr log clinigol ar gael ar wefan DES AaGIC.

Dylai ymgeiswyr allu cynnig tystiolaeth o ddysgu clinigol, gan gynnwys o leiaf un o'r canlynol:

A) 10 o Weithdrefnau a Arsylwir yn Uniongyrchol (DOPs) wedi'u cymeradwyo gan arbenigwr neu Ymgynghorydd OS / OMFS. Mae'r rhain yn weithdrefnau llawfeddygol yr ydych wedi'u cynnal fel y gweithredwr tra'n cael eich arsylwi. Dylai'r DOPS gynnwys disgrifiad byr o'r achos, yr hyn yr oedd y goruchwyliwr

yn teimlo ei fod wedi'i gwblhau'n dda, meysydd i'w datblygu, unrhyw gamau gweithredu a argymhellir, ac adlewyrchiad gan yr hyfforddai.

B) 5 Trafodaeth Seiliedig ar Achos (CBDs) sy'n berthnasol i Lawfeddygaeth y Geg ac wedi'u cymeradwyo gan arbenigwr neu Ymgynghorydd OS / OMFS. Dylid darparu crynodeb o'r drafodaeth.

C) Log myfyriol o achosion diddorol, heriol neu anarferol perthnasol yr ydych wedi'u trin ac unrhyw ddigwyddiadau arwyddocaol , er enghraifft, cymhlethdodau triniaeth a gafwyd. Dylech drafod unrhyw beth rydych wedi'i ddysgu neu ei newid yn eich ymarfer clinigol o ganlyniad i'r achos.

Mae'n rhaid i chi hefyd ddarparu tystiolaeth o weithio dan oruchwyliaeth uniongyrchol Ymgynghorydd Llawfeddygaeth y Geg, Ymgynghorydd y Geg a'r Genau a'r Wyneb, neu Lawfeddyg y Geg Arbenigol. Dylai hyn gyfateb i leiafswm o 46 sesiwn, e.e. un sesiwn yr wythnos am flwyddyn. Lle bo modd, dylech gynnwys eich contract. Nid oes cyfyngiad amser ar y profiad hwn.

Yn olaf, dylech ddarparu tystiolaeth o hyfforddiant mewn rheoli cleifion sâl, gall hyn fod trwy gwrs fel ILS, neu brofiad perthnasol arall e.e. swydd OMFS.

## Adran 3: Cyfeiriadau

Dylech gynnwys dau eirda clinigol yn cadarnhau eich addasrwydd i ddarparu gwasanaethau Lefel 2a. Lle bo modd, rhaid i o leiaf un geirda fod gan Ymgynghorydd OMFS neu Lawfeddyg y Geg Arbenigol sydd wedi arsylwi’n uniongyrchol ar waith yr ymgeisydd.

Os nad yw hyn yn bosibl, er enghraifft ar gyfer clinigwyr sy'n gweithio'n annibynnol mewn lleoliad gofal sylfaenol, gall yr ail eirda fod gan Aelod o Staff Deintyddol uwch y Bwrdd Iechyd Lleol neu berson o statws tebyg.

Dylai geirdaon gadarnhau eich addasrwydd i ddarparu gwasanaethau Llawfeddygaeth y Geg Lefel 2a, a dylent gynnwys sylwadau ar:

- Eich lefel o sgiliau a phrofiad clinigol
- Lefel addysgu/hyfforddi/gallu goruchwylio
- Rhinweddau personol a sgiliau cyfathrebu

Rhaid darparu gwybodaeth gyswllt ar gyfer pob canolwr.

Mae templedi ar gael i'w lawrlwytho o dudalen we DES AaGIC.

## Adran 4: Sgiliau proffesiynol, arwain a rheoli

Rhaid i chi gynnwys tystiolaeth o'ch cyfranogiad mewn gweithgareddau Archwilio neu Wella Ansawdd. Nid yw tystiolaeth o hyfforddiant ffurfiol mewn Gwella Ansawdd fel y Modiwl Sylfeini ar gyfer Gwella sydd ar gael trwy https://learning.nhs.wales yn hanfodol, ond mae'n cael ei ffafrio.

Dylech drafod:

- Natur y prosiect a'ch rôl chi ynddo.
- Tystiolaeth o'r newidiadau a roddwyd ar waith.
- Myfyrio ar lwyddiant/rhwystrau.
- Dylai'r prosiect fod wedi cynnwys o leiaf ddau gylch.

Rhaid i chi hefyd ddarparu tystiolaeth o hyfforddiant Cydraddoldeb ac Amrywiaeth ee tystysgrif DPP.

Yn ogystal â darparu'r dystiolaeth uchod, argymhellir eich bod yn cynnwys cymaint â phosibl o dystiolaeth o'r canlynol:

Profiad o arwain a rheoli - ee: pwyllgor neu reolwyr deintyddol neu swyddi cyfrifol eraill; cwblhau cyrsiau priodol megis Rhaglen Arweinyddiaeth Edward Jenner, Cymrodoriaethau Clinigol

Arfarniad beirniadol ac adolygiad gan gymheiriaid Presenoldeb rheolaidd mewn clwb cyfnodolion neu dystysgrifau DPP perthnasol

## Adran 5: Datblygiad Personol o fewn arbenigedd

Dylech gyflwyno tystiolaeth o DPP priodol Llawfeddygaeth y Geg sy'n cysylltu â chymwyseddau disgwyliedig ymarferwr Lefel 2a, ochr yn ochr â Chynllun Datblygu Personol (CDP) wedi'i gwblhau a Chofnod DPP.

Dylai eich portffolio ddangos eich ymrwymiad i gynnal a datblygu eich sgiliau a'ch gwybodaeth dros amser, gyda DPP yn adlewyrchu eich cynnydd dros y blynyddoedd diwethaf. Gwerthfawrogir y gall clinigwyr fanteisio ar y cyfle hwn i wella eu sgiliau, fodd

bynnag, gall portffolios sy'n cynnwys DPP diweddar yn unig heb ddangos cynnal a gwella  sgiliau yn y tymor hir a dilyniant fod yn destun pryder.

Dylai'r Cofnod DPP a'r PDP nodi eich parodrwydd i ddatblygu eich set sgiliau Llawfeddygaeth y Geg a chael y wybodaeth ddiweddaraf am yr arferion gorau cyfredol.

## Adran 6: Tystiolaeth Ategol Opsiynol

*Efallai y bydd ymgeiswyr am gyflwyno rhai neu bob un o'r canlynol fel tystiolaeth i gryfhau eu cais:*

Manylion astudiaeth annibynnol a gwblhawyd mewn perthynas â Llawfeddygaeth y Geg

Cofnod o weithgareddau addysgu a/neu adborth gan ddysgwyr a/neu adolygiad cymheiriaid o addysgu

Tystiolaeth o gymwysterau addysgu

Cofnod o gyrsiau neu ddiwrnodau astudio a fynychwyd, gyda myfyrdodau.

Tystiolaeth o weithgareddau Rheolaeth Glinigol

Tystiolaeth o berthnasoedd gwaith da:

- Adborth perthnasol gan gleifion, cardiau diolch ac ati.
- Adborth Aml-Ffynhonnell ee 360°
- PREMS / PROMS

Gwobrau, cyflawniadau a chanmoliaeth eraill sy'n berthnasol i Lawfeddygaeth y Geg

Cyhoeddiadau perthnasol

Cyflwyniadau, posteri a gwaith academaidd arall perthnasol

**Atodiad 1 - Lefelau 1 a 2a Cwricwlwm Llawfeddygaeth y Geg**

Mae'r rhestr ganlynol o fathau o weithdrefnau LlyG, lefelau cymhlethdod a lleoliadau wedi'u cymryd o *Lawlyfr Atgyfeirio Llawfeddygaeth y Geg Cymru Gyfan ar gyfer Ymarferwyr Deintyddol Cyffredinol 2021 Fersiwn 1.5.* Lluniwyd y ddogfen hon yn dilyn adborth gan Rwydweithiau Clinigol a Reolir (MCNs) Llawfeddygaeth y Geg Cymru, Pwyllgorau Deintyddol Lleol (LDCs) a Phwyllgor Deintyddol Cymru. Am enghreifftiau o achosion penodol, gweler y Llawlyfr.

**Arweiniad yw'r rhestrau hyn ac ni fwriedir iddynt fod yn rhagnodol.** Gall fod yn briodol gwyro oddi wrth y canllawiau hyn os bydd amgylchiadau'n caniatáu, er enghraifft: cau ffistwla neu gysylltiad rhwng y geg a cheudod yr ên mewn practis deintyddol cyffredinol a gyflawnir gan ymarferydd gofal sylfaenol Lefel 1 sy'n gymwys i gyflawni triniaethau o'r fath; neu weithdrefn Lefel 3 a gyflawnir gan ymgynghorydd LlyG/LlG-W mewn lleoliad canolraddol neu ofal.

Yng Nghymru, mae gofal Lefel 2 wedi'i wahanu'n Lefel 2a: Gofal Canolraddol (addas ar gyfer Deintydd â Sgiliau Uwch) a Lefel 2b: Gofal Arbenigol i adlewyrchu'n ddigonol gwmpas y triniaethau a ddarperir gan ymarferwyr DSE a gwasanaethau arbenigol LlyG mewn gofal sylfaenol. Fodd bynnag, bydd cwmpas y triniaethau a ddarperir gan unrhyw glinigwr yn dibynnu ar eu cytundebau cytundebol a lefel eu profiad.

| **Lefel Gwasanaeth:** | **Lefel 1** | **Lefel 2a** | **Lefel 2b** | **Lefelau 3a a 3b** |
|---|---|---|---|---|
| Perfformiwr Disgwyliedig: | Pob Deintydd Cyffredinol | Ymarferwyr DSE Llawfeddygaeth y Geg | Llawfeddyg y Geg Arbenigol | Gofal dan Arweiniad Ymgynghorwyr |

| Lleoliad a Ragwelir: | | Lleoliad Gofal Sylfaenol | Lleoliad Gofal Canolraddol | Lleoliad Gofal Arbenigol | Lleoliad Gofal Eilaidd e.e. Ysbyty |
|---|---|---|---|---|---|
| *Math ac Is-fath o Weithdrefn* | | | | | |
| Trin a thynnu dant/ dannedd sydd wedi torri drwodd | Pob triniaeth | Y | | | |
| Trin a thynnu trydydd cilddannedd anghymhleth sydd wedi torri drwodd | Pob triniaeth | Y | | | |
| Tynnu dannedd neu wreiddiau drwy lawdriniaeth (gan gynnwys trydydd cilddannedd nad ydynt yn gymhleth) sy'n debygol o: | Gynnwys meinwe meddal yn unig | Y | | | |
| | Cynnwys hollti a/neu dynnu asgwrn | Y | Y | Y | |
| | Bod yn agos (o fewn 2mm ar belydr-x) i geudod genol | Y | Y | Y | |
| | Cynnwys dull taflodol neu dafodol | | | Y | Y |
| | Cynnwys dannedd ectopig neu ychwanegol sydd heb dorri drwodd | | | Y | Y |
| Cau ffistwla neu gysylltiad rhwng y geg a cheudod yr ên | Heb fynediad genol i gael gafael ar y dant neu'r gwreiddyn | Y | Y | Y | Y |
| | Gyda mynediad genol i gael gafael ar y dant neu'r gwreiddyn, e.e., Caldwell Luc | | | Y | Y |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Llawdriniaeth i dynnu trydydd cilddant cywasgedig sy'n debygol o: | Gynnwys meinwe meddal yn unig | Y | Y | Y | |
| | Cynnwys tynnu asgwrn | | Y | Y | |
| | Cynnwys hollti dant neu wreiddyn | | Y | Y | |
| Coronectomi ar drydydd cilddant | Pob triniaeth | | Y* | Y | Y |
| Triniaeth sy'n cynnwys meinwe caled a meddal sy'n debygol o beryglu prif nerfau | Pob triniaeth | | | Y | Y |
| Tynnu dannedd ychwanegol | Dannedd sydd wedi torri drwodd sy'n gofyn am driniaeth tynnu dannedd syml | Y | | | |
| | Dant ectopig/ cywasgedig/heb dorri drwodd sy'n gofyn am lawdriniaeth i'w dynnu | | | Y | Y |
| Dod â dant i'r golwg drwy lawdriniaeth | Dull bochol/ gwefusol +/- bondio braced orthodontig | | Y* | Y | Y |
| | Drwy'r daflod | | | Y | Y |
| Dignewyllu systiau gên | Systiau gwreiddynol (blaen gwreiddyn) nad ydynt yn amheus ac sy'n annhebygol o beryglu prif nerfau | Y | Y | Y | |
| | Systiau odontogenig ac an-odontogenig | | | Y | Y |
| Triniaeth apicectomi ar ddant | Dannedd blaen un gwreiddyn lle bo sianel y gwreiddyn wedi'i gau yn ddigonol | | Y* | Y | Y |
| Torri allan anafod nad yw'n amheus o feinwe meddal y geg<br><br>(Gweler Arweiniad Cyfeirio | Er enghraifft, hyperplasia a achosir gan ddannedd gosod, polyp ffibro-epithelaidd, mucocele | Y | Y | Y | Y |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Meddygaeth y Geg Cymru gyfan) | | | | | |
| TMJD | Dull cychwynnol o reoli | **Y** | | | |
| | Nid yw wedi ymateb i ymyraethau syml neu’n bodloni’r ffactorau addasu ar gyfer ei gyfeirio | | | | **Y** |
| Deall a chynorthwyo i gyfeirio’n gynnar gleifion sydd ag anafodau malaen neu gyn-falaen | Pob cyflwr | **Y** | | | |
| Delio â thrawma i’r dannedd gan gynnwys ail-osod dant/dannedd a lwyr-rwygwyd | Pob cyflwr | **Y** | | | |
| Draenio crawniad deint-alfeolaidd | Yn y geg | **Y** | **Y** | **Y** | |
| | Y tu allan i’r geg | | | | **Y** |
| Delio â gwaedlif ar ôl tynnu dant/ dannedd | Pob cyflwr | **Y** | | | |
| Gosod mewnblaniad deintyddol anghymhleth yn unol â phrotocolau’r GIG | Pob triniaeth | **Y** | **Y*** | **Y** | **Y** |

Y*: Trwy gytundeb y panel, disgwylir efallai na fydd gan rai ymgeiswyr brofiad yn y meysydd hyn eto. Mae'r dystiolaeth hon felly yn ddymunol ond nid yn hanfodol ar gyfer achredu. Os yw’n bresennol byddai’n cefnogi cais cyffredinol yr ymgeisydd, gan dybio bod yr holl gymwyseddau gorfodol wedi’u bodloni.

Cynghorir ymgeiswyr yn gryf i ddarllen Taflen Farcio’r Panel, sef y canllaw diffiniol i ddisgwyliadau’r panel. Mae'r fersiwn diweddaraf ar gael trwy dudalen we DES-OS AaGIC.

**Atodiad 2 - Cymwyseddau ategol dangosol Lefel 2a Llawfeddygaeth y Geg**

*(Cyf: Rhif porth: 08479)*

Gwybodaeth

- Dangos gwybodaeth anatomegol lawn sy'n berthnasol i ymarfer llawfeddygol.
- Ymwybyddiaeth o ofod meinweoedd a lledaeniad haint.
- Dealltwriaeth briodol o therapiwteg.

**Clinigol**

- Y gallu i gymryd hanes cynhwysfawr.
- Cynnal archwiliad clinigol trylwyr.
- Adnabod unrhyw angen am brofion labordy a diagnostig perthnasol.
- Cynhyrchu diagnosis gwahaniaethol cynhwysfawr gan ddefnyddio'r holl wybodaeth berthnasol.
- Asesu a deall perthnasedd hanes meddygol y claf a'i hanes cyffuriau cyfredol ar iechyd y geg ac yn benodol triniaeth Llawfeddygaeth y Geg.
- Adnabod arwyddion cynnar sylweddol o glefydau sy'n bresennol yn y geg, yn enwedig cyflyrau systemig a chlefydau malaen.
- Cadw cofnodion darllenadwy a chyfoes.
- Adnabod a yw diagnosisyn fater sydd allan o gymhwysedd y DSE a disgrifio'r weithdrefn atgyfeirio briodol.
- Cydnabod a barnu'n gywir pryd a phryd i beidio ag ymyrryd mewn sefyllfa glinigol.
- Y gallu i wneud diagnosis a sefydlu rheolaeth gychwynnol effeithiol ar gyfer pob argyfwng meddygol a deintyddol cyffredin, gan gynnwys unrhyw rai sy'n deillio o gymhlethdodau triniaeth.
- Gallu rheoli (gan gynnwys diagnosis, cynllunio a gweithredu) cleifion â chyflyrau a restrir o dan gymhlethdodau Llawfeddygaeth y Geg Lefel 1 a 2a.

**Cyfathrebu**

- Cyfathrebu'n effeithiol o fewn rhwydweithiau clinigol.

**Rheolaeth Glinigol**

- Tystiolaeth o lywodraethu clinigol (gan gynnwys archwilio) sy'n berthnasol i Lawfeddygaeth y Geg y mae'r ymarferydd wedi bod yn ymwneud yn bersonol ag ef.

- Tystiolaeth o gael eich cynnwys mewn rhwydwaith clinigol a reolir (lle bo'n briodol).
- Tystiolaeth o adrodd am ddigwyddiadau critigol.
- Tystiolaeth o adrodd a chofnodi cyfraddau cymhlethdod.